**EDC-16-00 (cofn drafft)**

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 1 Tachwedd 2000

**Amser:** 2.00 – 5.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn Bresennol**

| **Aelodau** | (Etholaeth) |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German (Gweinidog dros Datblygu Economaidd) | De Ddwyrain Cymru |
| Phil Williams<br>Brian Hancock | De Ddwyrain Cymru<br>Islwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |

| **Swyddogion** | (Adran) |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| Steve Phillips | Pennaeth Adran Polisi Economaidd |
| John Clarke (eitem 7) | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Gareth Edwards (eitem 4) | Adran Polisi Economaidd |
| Chris Johnes (eitem 7) | Tïmau'r Cronfeydd Strwythurol |

| | |
|---|---|
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Cyfranwyr allanol**

| | |
|---|---|
| Philip Evans (eitem 5) | Cadeirydd, Bwrdd Croeso Cymru |
| Jonathan Jones (eitem 5) | Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru |
| Carl Hadley (eitem 6) | Dirprwy Gadeirydd, Grwp Llywio Cynllun Gweithredu Mentergarwch |
| Hywel Evans (eitem 6) | Aelod, Grwp Llywio'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch |
| Lorraine Beard (eitem 6) | Aelod, Grwp Llywio'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch |
| Ian Willox (eitem 6) | Aelod, Grwp Llywio'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch |
| Jeff Andrews (eitem 7) | Partneriaeth Amcan 2 Dwyrain Cymru |
| Phil Fiander (eitem 7) | Partneriaeth Amcan 2 Dwyrain Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Jo Trott | Dirprwy Glerc |
| Jo Glenn | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau a Dirprwyadau**

- Elin Jones yn lle Dafydd Wigley
- Christine Gwyther yn lle Brian Gibbons

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod. Gwahoddodd yr aelodau i gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg gan eu hatgoffa bod angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiant. Croesawodd Christine Gwyther a oedd yn ddirprwy ar ran Brian Gibbons ac Elin Jones a oedd yn ddirprwy ar ran Dafydd Wigley.

**Eitem 2: Cofnodion Cyfarfod 18 Hydref**

**Cywirdeb**

2.1 Nid oedd dim cywiriadau i'r cofnodion.

**Camau i'w Gweithredu**

- Gyda golwg ar eitem 1, yr oedd y Cadeirydd a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd wedi trafod y mater. Yr oedd gan y Gweinidog lythyr ateb i'r Cadeirydd yn cynnig cyfarfod er mwyn cytuno ar y ffordd ymlaen.
- Gyda golwg ar eitem 4 (Cymhorthion Gweithredu), dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 13 Rhagfyr. Yr oedd un Aelod yn anhapus ynghylch yr oedi gyda'r papur hwn a thynnodd sylw hefyd at ymateb Canghellor y Trysorlys i gwestiynau ynghylch cymhorthion gweithredu yng Nghymru. Cytunodd y Gweinidog i sôn am y mater hwn yn y papur. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Datblygu Economaidd]**
- Gyda golwg ar eitem 28, yr oedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer trafodaeth lawn ar yr Cymorth Dethol Rhanbarthol (RSA). Tynnodd y gweinidog sylw at y ffaith fod swm yr RSA a gynigid i gwmni'n cael ei gyhoeddi yn y Tueddiadau Cyflogaeth ar ôl talu'r rhandaliad cyntaf. Atgoffodd yr Aelodau os oeddent am gael trafodaeth gyhoeddus ar RSA na fyddai'n gallu cyfeirio at gynigion i gwmnïau nad oeddent wedi'u cyhoeddi yn y Tueddiadau Cyflogaeth oherwydd resymau cyfrinachedd masnachol. Tynnodd Aelod sylw at y ffaith na allai'r Gweinidog gyfyngu ar ba gwestiynau a ofynnid gan y Pwyllgor, hyd yn oed os nad oedd yn gallu eu hateb.
- Gyda golwg ar eitem 12, gofynnwyd i'r arweiniad i WIDAB fod yn rhan o'r drafodaeth ar yr RSA. Atgoffwyd y Gweinidog fod cais wedi'i wneud am ddau becyn amcanol y gellid eu cynnig i fewn-fuddsoddwyr. Dylai un o'r rhain fod yn becyn a gynigir i ddarpar fuddsoddwr yn ne a dwyrain Cymru; a'r llall yn becyn a gynigid y tu allan i'r ardal honno. **[Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd].** Cadarnhaodd y gweinidog ei fod yn hapus i WIDAB a'r RSA gael eu hystyried ar y cyd [**Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc].** Dywedodd y Cadeirydd, petai'r Pwyllgor yn teimlo y byddai o fudd ystyried gwybodaeth gyfrinachol y gellid cynnal cyfarfod preifat.
- Gyda golwg ar eitem 32, cadarnhawyd y darperid papur a bod y ffordd yr oedd rhaglenni'n cael eu cydlynu'n bwysig iawn.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

3.1 Cododd y gweinidog y pwyntiau hyn:

- Yr oedd casgliadau'r arolygon busnes yr adroddid amdanynt yn ei adroddiad ysgrifenedig yn groes i'w gilydd. Yr oedd y Gweinidog wedi gofyn am gynnwys data Banc Lloegr.
- Soniodd wrth y pwyllgor am ffurfio Fforwm Electroneg. Yr oedd hwn wedi'i sefydlu i ailstrwythuro'r diwydiant yng Nghymru. Ei nod oedd gwella lefelau sgiliau a chyfleoedd hyfforddi a datblygu'r gadwyn gyflenwi, er enghraifft drwy ddatblygu'r cyflenwad tuag allan o Gymru i Panasonic yn y Weriniaeth Tsiec.
- Yn ddiweddar, yr oedd wedi agor Parc Busnes Oakdale, y safle diwydiannol tir llwyd mwyaf yn y Cymoedd. Byddai'n creu cyfleoedd sylweddol am swyddi yn y Cymoedd.
- Yr oedd gan y Gweinidog nifer o ymrwymiadau yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol agos a oedd yn cynnwys ymweliad â Sharp Electronics a WEFO.

3.2 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan yr Aelodau a chodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Sylweddolai'r Gweinidog ei bod hi'n hollbwysig bod ffordd hwylus ar gael i mewn i Barc Busnes Oakdale. Fodd bynnag, ychydig y gallai ei wneud ar hyn o bryd ynghylch hyn gan mai prosiect PFI oedd y ffordd newydd y cytunwyd arni gan y llywodraeth flaenorol ac mai mater i'r awdurdod cynllunio lleol oedd llwybr y ffordd honno.
- Sicrhaodd y Gweinidog yr Aelodau fod cryn dipyn o waith ymchwil wedi ymwreiddio yng Nghymru ym maes y symudiadau tuag at sgriniau plasma a chynhyrchiadau LED. A dweud y gwir, yr oedd Panasonic ar y blaen i Phillips gyda golwg ar gynhyrchiadau LED.
- Gan ymateb i gwestiwn, mynegodd y Gweinidog ei bryder ynghylch Ledwood Construction, cwmni o Sir Benfro, a oedd wedi cael ei orfodi i fynd at y derbynnydd yn wirfoddol yn dilyn problemau gyda chontract penodol. Ar wahân i hyn, yr oedd y cwmni'n un sylfaenol hyfyw a gobeithiai y byddai modd canfod prynwr cyn bo hir. Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo yn y cefndir i ddarparu pa gymorth bynnag yr oedd modd.
- Yr oedd yn hanfodol bod y sector preifat yn rhan o'r broses Amcan 1 gan fod hyn yn elfen ganolog er mwyn sicrhau cynnydd yn y GDP. Nid oedd yn bwriadu rhagweld canlyniadau'r Adolygiad ond byddai angen i'r broses adolygu sicrhau bod yr holl gyfranwyr allweddol yn cael rhan yn y broses. Yr oedd cylch gorchwyl yr Adolygiad wrthi'n cael eu llunio ar hyn o bryd.
- Ni theimlai'r Gweinidog ei bod yn briodol iddo gael gormod o ran yn y Pwyllgor Monitro a byddai'n derbyn gwybodaeth gan ei aelodau.
- Er bod y bunt uchel yn broblem i rai cwmnïau gweithgynhyrchu, tynnodd sylw at y ffaith fod ei chyfradd isel o'i chymharu â'r ddoler a'r yen yn broblem i eraill. Yr oedd rhai cwmnïau gweithgynhyrchu yn gallu ymaddasu i'r gyfradd gyfnewid tra bo eraill yn ei chael hi'n anodd.
- Gwyddai'r Gweinidog fod angen rhoi cefnogaeth i ardaloedd sydd yn gyfagos i'r prif ardaloedd cynhyrchu dur. Gan fod awdurdodau lleol wedi'u cynrychioli ar y Fforwm hwn, dylai hyn olygu bod modd gwasanaethu ardaloedd ehangach.

3.3 Codwyd pwynt o drefn. Yr oedd un Aelod yn bryderus nad oedd ugain munud yn ddigon o amser i holi'r Gweinidog yn fanwl. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod gan y Pwyllgor agenda llawn iawn ac y byddai'n croesawu eu sylwadau ar eu blaenoriaethau. Dywedodd yr Aelod perthnasol ei fod yn ystyried adroddiad y Gweinidog yn flaenoriaeth.

**Eitem 4: Adolygu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol**

4.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y cynhelid trafodaeth ddwyawr anffurfiol ar 2 Tachwedd i drafod paramedrau cyffredinol y Strategaeth. Esboniodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn papurau perthnasol yn ystod y tri chyfarfod nesaf yn ymwneud â thri phrif linyn y Strategaeth. Ar ôl anfon y Strategaeth at bobl ar gyfer ymgynghori, byddai dal cyfle i'r Pwyllgor weithio ar y rhannau nad oedd wedi'u hystyried o'r blaen. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai gohirio'r brif drafodaeth ar y papur 'gweledigaeth' tan y sesiwn anffurfiol yn well ffordd o ddefnyddio'r amser. Gofynnwyd i'r aelodau gyfyngu eu sylwadau yn y cyfarfod hwn i'w hymateb cychwynnol.

4.2 Wrth gyflwyno'r papur, soniodd y Gweinidog mai bwriad y papur oedd ysgogi syniadau ac ennyn trafodaeth. Yr oedd Cymru'n wynebu problemau a oedd yn ymwneud â segurdod a chynhyrchaeth ac yr oedd angen

cynhyrchu atebion blaengar i'r problemau hyn gan nad oedd y dull traddodiadol wedi gweithio. Nid mater o 'naill ai/neu' oedd rhoi cefnogaeth i fewnfuddsoddwyr neu i fusnesau cynhenid. Yr oedd rhaid canolbwyntio mwy ar sectorau penodol, canfod pa sectorau oedd fwyaf tebygol o lwyddo. Gallai'r Cynulliad droi at sawl cyfrwng i'w gynorthwyo megis Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru a'r cronfeydd strwythurol.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i roi eu hymateb cychwynnol i'r papur.

- Mynegwyd y gobaith na fyddai'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol yn ddim mwy nag adroddiad arall nad oedd neb yn gwneud dim yn ei gylch. Dylai gyfeirio polisïau a chynlluniau yn y dyfodol. Mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau eraill y farn mai'r Pwyllgor a ddylai fod yn berchen ar y Strategaeth a'i bod yn hanfodol er mwyn adfywio diwydiant.
- Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r Adolygiad o'r Gefnogaeth i Fusnesau yn gwneud argymhellion a fyddai'n esblygu'n barhaus, fel y byddai'r Strategaeth. Gobeithid y byddai corff ymgynghorol yn cael ei sefydlu o fis Ebrill ymlaen i ymdrin â hyn.
- Yr oedd ffocws rhanbarthol yn bwysig iawn a dylid cysylltu hynny gyda'r strategaeth gyflogi gyffredinol.
- Dylid rhoi sylw i bartneriaeth gymdeithasol (a fu'n rhan o ymweliad y Pwyllgor ag Iwerddon) a phwysigrwydd twristiaeth.
- Dylai'r weledigaeth a awgrymir ar dudalen 2 y papur hefyd roi pwyslais ar gael economi ddeinamig a allai gynhyrchu ei chyfoeth ei hun.
- Yr oedd cymal ar dudalen 3 yn awgrymu'n anghywir fod yr RSA yn arian-gyfyngedig. Awgrymwyd y dylai fod rhagor o wybodaeth yn y papur ar swyddogaeth strategol yr RSA. Yr oedd y papur yn ategu'r angen am drafodaeth fanwl ar y cynllun.
- Ar dudalen 5, yr oedd trafodaeth ar swyddogaeth datblygu cynaliadwy gyda golwg ar adfywio economaidd. Awgrymwyd ei bod yn bwysig cynnwys y lobi amgylcheddol. Hebddynt hwy, ni fyddai cefnogaeth eang i'r ddogfen.
- Pwysleisiwyd y dylid gweld y ddogfen mewn cyd-destun ehangach. Byddai ei gweithredu'n dibynnu ar ffactorau megis cynllunio. Felly, yr oedd hi'n bwysig ystyried cynllunio gofodol ac ynni cynaliadwy o safbwynt strategol. Dylai gwaith y Pwyllgor Datblygu Gwledig ar economi cefn gwlad hefyd gael ei fwydo i'r broses hon.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.4 Yn gyffredinol, yr oedd y Cadeirydd yn croesawu'r papur. Dywedodd, gyda golwg ar yr RSA, ei bod yn bwysig penderfynu beth y gellid a beth na ellid ei wneud o fewn y cytundebau presennol gyda llywodraeth y DU. Cadarnhaodd fod cynllunio amgylcheddol, datblygu cynaliadwy a pholisïau'r amgylchedd i gyd yn bethau i'w hystyried. Yr oedd angen sicrhau bod pawb yn cyfrannu at y broses hyd eithaf eu gallu. Yr oedd yn hanfodol tynnu'r gwaith a wneid mewn gwahanol fannau at ei gilydd. Felly, byddai'r Strategaeth yn cael ei hanfon i Bwyllgorau eraill ac yn cael ei dosbarthu ar gyfer ymgynghori allanol. Yr oedd angen cytuno ar gamau clir fel bo modd bwrw ymlaen â'r Strategaeth.

**Eitem 5: Adolygu'r hyn a Gyflawnwyd gan BCC.**

1. Wrth gyflwyno'r papur, tynnodd Philip Evans sylw at y gwaith a wnaethpwyd yn ystod y saith mis ers i BCC ddod ger bron y Pwyllgor. Rhai o'r pethau a gyflawnwyd oedd cwblhau a lansio'r strategaeth ddeng mlynedd ("Cyflawni ein Potensial – Strategaeth Twristiaeth i Gymru"). Yr oedd BCC wedi llwyddo y tu hwnt i'w dargedau gyda golwg ar ei berfformiad y llynedd a thynnwyd

sylw at y ffaith fod y cynnydd yn nifer y swyddi'n cyfeirio at swyddi ym maes twristiaeth cynaliadwy yn hytrach na swyddi yn y diwydiant adeiladu. Yr oedd BCC yn dal i lwyddo i sicrhau cymhareb o 30:1 ar gyfer marchnata h.y. derbyn £30 am bob £1 a werir ar farchnata. Yr oedd BCC wedi llwyddo i gynnal Cynhadledd Cymdeithas Awduron Teithio America ac yr oedd hynny wedi golygu codi nawdd masnachol o £250,000. Rhai o'r problemau a wynebwyd yn ystod y cyfnod oedd yr Euro, prisiau tanwydd a'r tywydd ond er gwaethaf hyn, teimlai Philip Evans ei fod wedi llwyddo i greu bwrdd croeso masnachol yn unol â'i addewid.

5.2 Croesawyd yr adroddiad 'Swyddogaethau a Chyfrifoldebau" fel un arloesol a realistig. Derbyniwyd Adroddiad arall gan Stevens Associates a KPMG ac yn dilyn hynny, yr oedd y Bwrdd wedi penderfynu argymell ffurfio pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol. Byddai'r tri chwmni twristiaeth Rhanbarthol yn penderfynu beth fyddai eu ffawd hwy eu hunain, ond byddai'r nawdd craidd gan BCC yn dod i ben ym mis Medi 2001. Byddai partneriaethau rhanbarthol newydd yn adlewyrchu rhanbarthau'r ffora economaidd yn cael eu creu er mwyn cael gwared ar y syniad fod yr aelodaeth yn gyfyng. Ymhlith partneriaid y cynllun, byddai awdurdodau lleol, y diwydiant twristiaeth a chyrff y sectorau. Buddsoddid £3 miliwn ar gyfer arian cyfatebol bunt am bunt. Byddai hyn yn golygu bod y partneriaid yn canolbwyntio ar themâu 'cynnydd, arloesi, ansawdd'. Byddai'r hawl i roi cymorth grant i brosiectau cyfalaf gan ddyfarnu grantiau o hyd at £100,000 yn cael ei datganoli i'r partneriaethau rhanbarthol. Pwysleisiodd Philip Evans y dylid caniatáu i'r rhanbarthau wneud yr hyn yr oeddent yn ei wneud orau – datblygu twristiaeth yn eu hardaloedd. Dylai BCC ganolbwyntio ar farchnata Cymru'n fyd-eang. Cadarnhaodd fod y prif chwaraewyr yn gyffredinol yn croesawu'r newidiadau hyn.

5.3 Byddai tîm cefnogi-busnesau mwy gyda deuddeg o ymgynghorwyr ar gael o fis Mehefin 2001 ymlaen. Yn ogystal â darparu cyngor ym maes busnes, byddai'r ymgynghorwyr hefyd yn dyfarnu graddau i ddarparwyr llety mewn ffordd adeiladol gan symud oddi wrth yr hen drefn lle yr oedd y graddwyr yn cael eu gweld yn bobl a oedd yn plismona'r system. Byddai cynllun newydd yn dechrau ym mis Ionawr 2001, sef 'Mantais'. Byddai hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i farchnata busnesau twristiaeth drwy drafod gostyngiadau ar hysbysebu ym mhrif gyfryngau'r DU.

5.4 Newid arall oedd rhoi cyfrifoldebau dros y sectorau i aelodau'r Bwrdd (a oedd bellach yn gweithio ddau ddiwrnod yr wythnos). Lluniwyd Fforwm Bancio BCC i ddarparu gwell gwybodaeth.

5.5 Yr oedd Philip Evans wrth ei fodd gyda'r cynnydd o £3 miliwn yng nghyllideb BCC, a hynny ar ben yr £1,65m a glustnodwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Cyrchfannau'r Cyngor Twristiaeth Rhyngwladol. Petai modd cyfuno hyn gyda chais llwyddiannus am arian Amcan 1, yna byddai modd i' BCC wneud gwahaniaeth o ddifrif i dwristiaeth ym mhob rhan o Gymru. Yr oedd cyflawni targedau GDP yn dibynnu ar y gyllideb a byddai angen trafod hyn. Tynnodd sylw at yr anawsterau sydd ynghlwm wrth geisio cael troedle ym marchnad Siapan gyda chyllideb o £25,000 ar gyfer Siapan ac yn yr un modd, gyllideb o £300,000 ar gyfer UDA. Nid oedd gan BCC gyllidebau ar gyfer Awstralia a Seland Newydd. Yr oedd BCC wedi gwneud cais am gymorth grant ychwanegol i gynyddu ei gyllideb flynyddol i bron £50 miliwn, sef y swm yr oedd ei angen, ym marn y Bwrdd, er mwyn cael adnoddau digonol i wneud ei waith. Esboniwyd y cyfiawnhad dros gynnydd o'r fath yn Atodiad II ei Gynllun Corfforaethol (Atodiad 4 i EDC-16-00 (t.8). Rhoddwyd gwybod i BCC bod £23 miliwn ar gael hefyd yng nghyllideb Ffordd i Ffyniant ar gyfer cyfatebu ceisiadau Amcan 1 y gallai BCC fidio amdanynt. Dywedodd Jonathan Jones fod angen eglurhad ynghylch sut y gallai BCC gael gafael ar yr arian hwn.

5.6 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a gwnaethpwyd y pwyntiau isod:

- Croesawyd adroddiad BCC yn gynnes. Dangosai'r cynlluniau newydd beth oedd modd ei wneud wrth gynyddu adnoddau.
- Cadarnhawyd y byddai'r arian cyfatebol ar gyfer Amcan 1 yn cynnwys £10.3 miliwn o arian BCC gyda £1.4 miliwn yn gefn i hynny o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a £3 miliwn o'r sector preifat, sef cyfanswm o £14.9 miliwn, a fyddai, ynghyd â'r arian a ddenir o Ewrop, yn gallu darparu cyfanswm o £29.9 miliwn i'w wario dros y ddwy flynedd a hanner nesaf ar hyrwyddo a marchnata. Arian cymorth grant a oedd yn bodoli eisoes dros gyfnod o dair blynedd oedd y £10.3 miliwn.
- Cyflwynwyd cynllun cefnogi-busnesau twristiaeth eraill dan gynllun carlam Amcan 1 a oedd yn defnyddio £6.3 miliwn o arian cymorth grant BCC fel arian cyfatebol dros ddwy flynedd a hanner i gynhyrchu cynllun gwerth £12.6 miliwn yn ei grynswth. Byddai'r gyllideb Cefnogi Busnesau Twristiaeth yn darparu cefnogaeth grant cyfalaf yn ogystal â chyngor busnes naill ai gan Fwrdd Croeso Cymru neu byddai'r ymgeisydd yn cael ei gyfeirio at ffynonellau eraill. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys unrhyw arian cyfatebol ychwanegol y gellid ei sicrhau o gyllideb y Ffordd i Ffyniant.
- Yr oedd oedi wedi bod gyda TGCh yng Nghymru oherwydd bod BCC wedi astudio'r systemau a ddefnyddid yn yr Alban ac Iwerddon er mwyn sicrhau nad oedd yn ailadrodd y camgymeriadau a wnaethpwyd yno. Penderfynwyd prynu system a oedd eisoes wedi cael ei phrofi yn hytrach na chreu eu technoleg hwy eu hunain.
- Yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi ei gefnogaeth i'r drefn gofrestru newydd. Ar ôl Gogledd Iwerddon, Cymru fyddai'r ail ranbarth yn y DU i gyflawni hyn. Yr oedd angen Gorchymyn yn y Cyngor er mwyn cyflwyno'r newid hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y cynnydd a wneir gyda golwg ar hyn. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Esboniwyd nad oedd BCC yn gweld bod cael dau frand (hanesyddol/chwedlau a'r dechnoleg newydd) yn golygu bod y naill yn cau allan y llall. Nid oedd yn golygu ei fod yn cyfleu delweddau croes i'w gilydd i'r farchnad oherwydd byddai un brand yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau a'r llall ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, i ddenu busnesau.
- Gan ateb cwestiynau am y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros dwristiaeth o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor Diwylliant newydd, dywedodd Philip Evans ei fod yn ystyried twristiaeth yn rym sy'n gyrru'r economi. Yr oedd angen i BCC ddod o dan Bwyllgor a oedd yn deall mai diwydiant oedd twristiaeth ac mai felly y dylid ei gweld. Yr oedd BCC eisoes yn gweithio gyda llawer o'r sefydliadau a ddeuai o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Diwylliant. Soniodd yr aelodau fod elfennau o faes twristiaeth hefyd ynghlwm wrth waith pwyllgorau eraill, megis Datblygu Gwledig ac Addysg, felly ni ddylai BCC deimlo ei fod wedi'i ynysu petai'n gadael y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Efallai yn wir y byddai'n well arno, gan fod y Pwyllgor Datblygu Economaidd wedi'i orlwytho drwy'r amser ac efallai y câi BCC fwy o sylw manwl gan bwyllgor llai prysur. Soniodd y Cadeirydd y byddai trosglwyddo BCC yn un o'r prif ystyriaethau ar ôl rhoi sylw i Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl–16, sef 'Diwylliant yn Gyffredin'
- Gyda golwg ar yr adroddiad ar 'Swyddogaethau a Chyfrifoldebau', cytunwyd ei bod yn bwysig i BCC ystyried goblygiadau staffio'r system newydd. Yr oedd BCC wedi bod yn trafod gyda'r PCS a gobeithid y byddai modd trosglwyddo staff i'r partneriaethau rhanbarthol newydd.
- Yr oedd y berthynas gydag Awdurdod Twristiaeth Prydain (y BTA) wedi gwella a bellach yr oedd gan y BTA brif swyddog a ddymunai weithio'n fwy clos gyda'r rhanbarthau. Yr oedd hi'n bwysig bod gan y BTA dargedau penodol ar gyfer Cymru. Gan y BTA oedd y grym mwyaf i gynrychioli Cymru dramor ac yr oedd BCC yn prynu i mewn i ymgyrchoedd y BTA lle'r oedd elfen Gymreig glir yn rhan ohonynt.
- Gyda golwg ar yr amrywiadau mewn graddfeydd ledled y DU, tynnodd BCC sylw at y ffaith fod yr Alban a Chymru'n rhannu cynllun graddio 'Celtaidd' a oedd yn seiliedig ar ansawdd (yn wahanol i gynllun Lloegr a oedd wedi'i seilio ar gyfleusterau). Yr oedd cynlluniau ar y cyd ledled y DU ar gyfer graddio carafannau sefydlog a llety hunan-arlwyo. Yr oedd y drefn graddio llety-â-gwasanaeth gan yr AA, RAC a

BCC bron iawn yn union yr un fath hyd at lefel tair seren.

- Gofynnwyd a fyddai modd cyflwyno cyllideb BCC ar ffurf gonfensiynol i ddangos y cynnydd o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Dilysid cyfleusterau ar sail Cymru-gyfan fel y gallai ymwelwyr fod yn siwr eu bod bob tro'n cael yr un safon.
- Yr oedd BCC o'r farn nad oedd 20% o gynnyrch sylfaenol Cymru yn ddigon da. Yr oedd y pwyslais newydd yn canolbwyntio ar wella'r cynnyrch yn hytrach na dim ond ar wella'r llety.
- Yr oedd marchnadoedd niche megis golff a beicio'n bwysig iawn am eu bod yn ymestyn y tymor ac am nad oeddent yn dibynnu ar y tywydd. Er eu bod yn ddrud i'w cyrraedd, yr oedd y marchnadoedd hyn yn werth mynd ar eu hôl am eu bod yn denu ymwelwyr i bob rhan o Gymru, nid dim ond i'r de.
- Yr oedd y swyddi a grëid yn cael eu monitro'n ofalus. Yr oedd mynd ar un o gyrsiau cymeradwy BCC yn orfodol ac yr oedd hyn yn sicrhau bod y swyddi'n rhai go iawn. Yn wir, yr oedd adroddiadau annibynnol yn awgrymu bod mwy o swyddi wedi'u creu nag yr oedd yr ystadegau'n ei awgrymu.
- Yr oedd BCC wedi gwneud cais am brosiect llwybr carlam dan Amcan 1 a fyddai'n cael effaith ar fusnesau twristiaeth yn ardaloedd Amcan 1.
- Yn dilyn y diddordeb a ddangosid gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd, yr oedd y rheolau wedi'u newid fel bo BCC bellach yn gallu cefnogi bwytai gydag arian adran 4. Cytunwyd bod 'bwyta' yn elfen hanfodol o'r profiad twristaidd a bod angen gwella'r rhan hon o gynnyrch Cymru.
- Soniodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y byddai ailstrwythuro'r gyllideb gyda golwg ar adnoddau ychwanegol ac arian cyfatebol yn faes allweddol.

**Crynodeb y Cadeirydd**

5.7 Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bwysig bwrw ymlaen gydag adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl – 16, yn enwedig yr argymhellion hynny a oedd yn effeithio ar y Pwyllgor Datblygu Economaidd. **[Cam Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Clerc]** Yr oedd yn bwysig bod y Pwyllgor yn penderfynu a ddylai gyfrannu at adolygiad y BTA. Dylai Aelodau anfon eu sylwadau dros yr ebost at y Cadeirydd a fyddai wedyn yn trosglwyddo barn y Pwyllgor i Steve Phillips. **[Cam Gweithredu: Aelodau'r Pwyllgor]** Byddai'r pwyllgor yn dilyn cynnydd y cynllun cofrestru statudol, drwy'r Gorchymyn mewn Cyngor **[Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd].** I gloi, ychwanegodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd mawr gwaith BCC a'r egni a'r ymdeimlad o arloesi yr oedd yn ei gyfrannu i faes twristiaeth ledled Cymru.

**Eitem 6: Cynllun Gweithredu Mentergarwch**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Grwp Llywio, gan atgoffa'r pwyllgor eu bod wedi trafod Dogfen Strategol y Cynllun Gweithredu Mentergarwch ym mis Mawrth. Bellach, yr oedd hwn wedi'i ddatblygu'n Gynllun Rhoi ar Waith yng ngoleuni sylwadau blaenorol yr aelodau a phrosesau ymgynghori eraill. Yr oedd y Cynllun, a oedd yn dwyn ynghyd nifer o gynlluniau sydd eisoes yn bodoli (yn ogystal â rhai newydd) erbyn hyn yn cynnwys mwy o fanylion ynghylch gweithredu a thargedau. Y nod oedd uno'r holl gynlluniau hyn a monitro'u heffaith. Gwahoddodd y Cadeirydd Carl Hadley, Dirprwy Gadeirydd y Grwp Llywio, i roi cyflwyniad byr, ac yn ystod hwnnw, cododd y pwyntiau hyn:

- Diolchodd i'r pwyllgor am y cyfle i gyflwyno'r Cynllun ac ymddiheurodd ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Llywio, David Latham.
- Esboniodd fod llawer o ymgynghori a gwaith datblygu wedi digwydd gyda'r holl ddarpar-bartneriaid ers i'r Grwp Llywio ddod ger bron y pwyllgor y tro diwethaf
- Yr oedd y cynigion wedi cael eu costio cyn belled â bo modd gwneud hynny, ond pwysleisiodd nad dogfen fidio oedd hon. Yr oedd y Grwp Llywio wedi llunio pecyn ar gyfer cyflwyno'r lefelau twf a nodir gan y Cynulliad, i'w hystyried ymhellach. Nid oedd y Grwp yn cynnig bwrw ymlaen gyda'r cynigion ond yn hytrach, yn argymell y dylid ffurfio grwp newydd i wneud hyn. O ran cysondeb, byddai o fudd i rai o'r grwp presennol aros yn aelodau. Ond, mater i'r Cynulliad benderfynu arno oedd a ddylid gweithredu'r cynigion hyn ac os felly, sut.
- Ceisiodd y Grwp Llywio gymeradwyaeth y pwyllgor i'r cynigion.

6.2 Diolchodd y Cadeirydd i Carl Hadley am ei gyflwyniad gan wahodd cwestiynau, ac yn ystod y rheini, codwyd y pwyntiau hyn:

- Ym mharagraff 1.2 y cynllun, dyfynnwyd cofnodion drafft Pwyllgor Datblygu Economaidd 27fed Mawrth 2000. Nodwyd bod y fersiwn derfynol yn darllen, "Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun fel gwaith sy'n mynd rhagddo".
- Yr oedd rhai aelodau'n bryderus fod y Cynllun wedi'i seilio ar y dybiaeth na allai Cymru gynhyrchu pobl fentrus tra mai'r gwir fater dan sylw oedd sut i'w cadw yng Nghymru. Awgrymwyd mai ar hyn y dylid seilio'r cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn addysg ar fentergarwch a chefnogi pobl fentrus gynhenid. Yr oedd aelodau'r Grwp Llywio'n cydnabod bod 'allfudo' yn rhan sylweddol o'r darlun cyfan.
- Cytunwyd bod angen integreiddio'r cynigion yn y Cynllun, yr argymhellion sy'n codi o adolygiad y pwyllgor ar gefnogaeth-i-fusnesau a datblygu busnesau yng Nghymru a chanlyniad y drafodaeth ar adroddiad ONS a materion cysylltiedig.
- Mynegwyd peth pryder ynghylch y cyfeiriadau at y ffaith fod angen archwilio'r ddarpariaeth gyfredol, yn enwedig yn y sector AB ac AU. Awgrymwyd na fyddai'n briodol cymeradwyo cyllideb gadarn a chynlluniau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol pan nad oedd y sefyllfa'n glir gyda golwg ar y ddarpariaeth gyfredol. Cydnabuwyd bod angen cael syniad clir o’r waelodlin gan fod hyn yn ganolog er mwyn monitro'r effaith yn y dyfodol. Unwaith eto, nodwyd y berthynas gydag adolygiad y pwyllgor ei hun, yn enwedig yng nghyd-destun diffyg data economaidd da.
- Yr oedd maint y gyllideb arfaethedig yn destun rhywfaint o bryder. Cydnabuwyd nad arian newydd oedd hyn i gyd – ond yr oedd ansicrwydd ynghylch faint oedd yn newydd, faint oedd yn berthnasol i Amcan 1 a ffynonellau Ewropeaidd eraill ayb. Nodwyd mai oddeutu £14 miliwn oedd y gyllideb gyfredol ar gyfer y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth (KEF). Cyn bo hir, trosglwyddid hyn i CETW.
- Esboniodd aelodau'r Grwp Llywio mai cofrestriadau ar gyfer TAW oedd yn darparu'r data ystadegol ar eni/marw busnesau ayb. Nodwyd prinder ffynonellau eraill, gan gynnwys cwmnïau nad oedd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW.
- Yr oedd peth dryswch ynghylch y termau "geni" a "chychwyn" busnesau newydd. (Tabl 8.1 ayb) Esboniodd aelodau'r Grwp Llywio mai'r "Cwmnïau'n cychwyn" oedd y rhai a gâi gymorth, tra nad oedd y "genedigaethau'n" cael cymorth.
- Yr oedd angen rhagor o fanylion am y cynigion gyda golwg ar fusnesau ffordd-o-fyw.
- Croesawyd cynnwys targedau yn y Cynllun.
- Croesawyd y swyddogaeth bwysig a oedd gan y sector preifat
- Cytunwyd mai proses hirdymor oedd newid diwylliannol i'r graddau a ragwelid yn y ddogfen a bod y camau penodol a nodwyd yn y Cynllun ar y cyfan wedi'u cyfyngu i gyflwyno amcanion tymor-byr.

- Yr oedd yn amlwg bod angen sicrhau ymrwymiad pobl ifanc ym maes mentergarwch, yn ogystal ag mewn addysg ysgol/colegau. Yn y cyd-destun hwn, cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i awgrymu cyfarfod ar y cyd.

**[Cam Gweithredu: Y Cadeirydd]**

6.3 Llongyfarchodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y Grwp Llywio a gwahoddodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd i gymeradwyo'r Cynllun mewn egwyddor. Nododd mai bwriad y Pwyllgor gwaith oedd datgysylltu'r holl flociau adeiladu a gynhwysid yn y Cynllun gyda golwg ar gyflwyno rhai ohonynt i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i'w hystyried ymhellach a rhai i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a Diwylliant.

**Crynodeb y Cadeirydd**

6.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Grwp Llywio am eu hymdrechion. Awgrymodd y gallai'r pwyllgor gymeradwyo'r cynllun mewn egwyddor. I grynhoi, pwysleisiodd y pwyntiau isod, a chytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd eu hystyried ymhellach **[Cam Gweithredu: Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]:**

- Yr oedd angen mwy o eglurdeb ynghylch statws gwahanol linynnau'r Cynllun ar hyn o bryd.
- Yr oedd angen datgysylltu goblygiadau'r cynigion o ran adnoddau.
- Yr oedd angen i'r pwyllgor ystyried y Cynllun yng nghyd-destun ei adolygiad ar y gefnogaeth i fusnesau a datblygu busnesau a hefyd yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol.

**Eitem 7: Cronfeydd Strwythurol**

**Amcan 2**

7.1 Gwahoddwyd Chris Johnes gan y Cadeirydd i gyflwyno'r papur. Esboniodd bod Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 2 (DRhS) wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai, ar ôl i'r pwyllgor ei hystyried ar 18fed Mai a'i chymeradwyo wedi hynny yn y Cyfarfod Llawn. Yr oedd nifer o fân newidiadau wedi codi o'r trafodaethau dilynol gyda'r Comisiwn, Partneriaeth Dwyrain Cymru a swyddogion y Cynulliad a ddechreuodd ym mis Awst. Byddai'r rhain yn cael eu nodi yn fersiwn derfynol yr SPD a gyflwynid i'r Cynulliad ar 2il Tachwedd cyn y Cyfarfod Llawn ar y 9fed. Esboniodd bod y trafodaethau wedi canolbwyntio ar dair prif thema: y Strategaeth Drosiannol, Targedu ar gyfer Datblygu Cymunedol a goblygiadau Ariannol. Diolchodd y Cadeirydd i Chris Johnes am ei waith ac agor y drafodaeth i'r llawr ar gyfer cwestiynau. Yn ystod hynny, codwyd y pwyntiau hyn:

- Byddai'r SPD terfynol, a ddosberthid y diwrnod wedyn, yn cynnwys gwybodaeth ariannol fesul blwyddyn.
- Gan ymateb i gwestiwn ynghylch i ba raddau y cymerwyd camau bwriadol i gynnwys lleiafrifoedd ethnig yn y broses, esboniodd aelodau Partneriaeth Dwyrain Cymru eu bod wedi rhoi sylw i sylwadau blaenorol y pwyllgor. Er enghraifft, yr oedd Caerdydd wedi ychwanegu 14 o grwpiau lleol at y bartneriaeth ac wedi cyfethol cynrychiolydd ar fwrdd rheoli'r cynllun gweithredu. Gwnaethpwyd trefniadau tebyg yng

Nghasnewydd ac ym Mro Morgannwg. Mater i'r Cynulliad ei hun fyddai penderfynu a fyddai'r un peth yn wir am bwyllgor monitro'r rhaglen.

- O ran gweithredu, esboniodd y Bartneriaeth mai'r llwybr a fyddai orau ganddi oedd cynllun gweithredu lleol. Yr oedd partneriaethau lleol eisoes yn cynnal trafodaethau a gellid dweud eu bod ar flaen y datblygiadau. Yr oeddent hefyd yn cadw cysylltiad clos gyda WEFO. Gyda golwg ar fesurau 1 a 2 blaenoriaeth 1 yn unig, teimlid y gellid dadlau dros ddewis un cynllun gweithredu rhanbarthol yn hytrach na dilyn y llwybr lleol. Yr oedd trafodaethau'n mynd rhagddynt yn y cyswllt hwn.
- Gyda golwg ar arian cyfatebol, esboniodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd fod y 'potiau' presennol o arian cyfatebol ar gael ar gyfer yr holl raglenni Ewropeaidd, ac nid oeddent wedi'u cyfyngu i Amcan 1 yn unig.

**Amcan 3**

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd mai ychydig oedd i'w ychwanegu at yr adroddiad ar y cynnydd gydag Amcan 3 (EDC-16-00 (p6)) ac eithrio i esbonio bod cyfran sylweddol o'r ceisiadau hynny nad oeddent yn cwrdd â throthwy ansawdd uchel pwyllgor monitro'r rhaglen wedi cael eu hailgyflwyno.

**Crynodeb y Cadeirydd**

7.3 Diolchodd y Cadeirydd i Bartneriaeth Dwyrain Cymru am ei holl waith caled, gan gymeradwyo'r ysbryd cryf o bartneriaeth a oedd wedi bod yn sail i'r cynllun.

**Eitem 8: Diweddaru Adroddiad ONS**

Gyda golwg ar y pwysau o ran amser, a'r cysylltiad clos rhwng adroddiad ONS a'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, cytunwyd y dylid gohirio'r eitem hon. Ymddiheurodd y pwyllgor i'r swyddogion perthnasol. Cytunwyd y dylai'r aelodau ebostio'u sylwadau ar gynigion y papur at y Clerc **[Cam Gweithredu: Yr Aelodau a'r Clerc]**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2000**